# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2004

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cynnig i Ohirio Rheolau Sefydlog**
*NDM1864 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 34.4, yn penderfynu atal Rheol Sefydlog 6.12 i ganiatáu i'r Cynnig heb Ddyddiad Trafod (NNDM1865) a gyflwynwyd ar 9 Mawrth 2004, yn enw Karen Sinclair, gael ei drafod gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth 9 Mawrth 2004.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
Derbyniwyd y cynnig gan y mwyafrif angenrheidiol o 2/3

**2.02pm**
**Cynnig i benodi Cynghorydd Annibynnol**
*NNDM1865 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 16.3, yn penderfynu:

1. penodi Mr Tom Frawley, Comisiynydd Cwynion ac Ombwdsmon y Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon, i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar fater sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelod (cyfeirnod C036-04);

2. y dylai Mr Frawley roi pa gymorth bynnag ar y mater i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad y gall y Pwyllgor ofyn amdano o fewn fframwaith "Trefn gwyno'r Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â Chwynion am Aelodau" a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 6 Gorffennaf 2000.

3. y dylai penodiad Mr Frawley ddod i ben unwaith y cwblheir ystyried y mater.

Gellir dod o hyd i "Trefn gwyno'r Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â Chwynion am Aelodau" ar y Fewnrwyd gan ddefnyddio'r hypergyswllt: http://assembly/committees/Standards%20Committee/Publications%20and%20Guidance/Approved%20Complaints%20Procedure%20-%206.7.00.doc

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
Derbyniwyd y cynnig.

**2.03pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.50pm**

**Cwestiwn Brys**
**Sandy Mewies (Delyn); A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed ddoe ar garthu a chael gwared ar ddeunydd ym mhorthladd Mostyn.**

**2.59pm**
**Datganiad Busnes**
Roedd mwy na 10 o'r Aelodau yn gwrthwynebu'r datganiad busnes.

Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:

O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 58

Cytunwyd ar y busnes drafft

**3.10pm**
**Atal y Trafodion**
Ataliwyd y trafodion gan y Dirprwy Lywydd am amser penodedig o dan Reol Sefydlog 7.12.

**3.34pm**
**Datganiad y Dirprwy Lywydd**

Dyfynnodd y Dirprwy Lywydd Reol Sefydlog 1.10.

**3.35pm**
**Pwynt o Drefn**
Codwyd pwynt o drefn gan Jeff Cuthbert o dan Reol Sefydlog 1.10 yn cwestiynu addasrwydd y Dirprwy Lywydd i gadeirio'r eitem busnes nesaf.

**3.37pm**
**Datganiad gan y Prif Weinidog: Penodi Cwnsler Cyffredinol newydd**

**4:22**
**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Cynhyrchu Cnydau ar raddfa Fasnachol**

**Cynnig Trefniadol**
Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio'r ddau gynnig canlynol i gymeradwyo Adroddiadau Grant Arbennig tan yfory.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 15; Cyfanswm 55
Gwrthodwyd y cynnig

**5.01pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol**
*NDM1850 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 3) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.11pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Cyllid Refeniw Ychwanegol (Maint Dosbarthiadau a Gwella Ysgolion)**
*NDM1851 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 9) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.24pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2003 o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11**
*NDM1852 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:
1. Yn cymeradwyo fersiwn drafft Rheoliadau Plaladdwyr (Lefelau Gwaddodion Uchaf mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2004 a'r atodlen gysylltiedig, y gosodwyd copïau ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004; ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.25pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Asiantaeth Pensiynau'r GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2004 o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11**
*NDM1853 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo fersiwn drafft Gorchymyn Asiantaeth Pensiynau'r GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2004 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004; ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.26pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2003 o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11**
*NDM1854 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo fersiwn drafft Rheoliadau Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2004 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004; ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.27pm**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**
*NDM1855 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad Y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad, ar 2 Mawrth 2004 ar y **Rheoliadau drafft Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo y gwneir **Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS** (Apelau) (Cymru) 2004 yn unol â:

i) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2004;
ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004;
iii) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2004.

2. a) Yn ystyried adroddiad Y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad, ar 2 Mawrth 2004 ar y Rheoliadau drafft **Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004** ac

b) Yn cymeradwyo y gwneir y Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004 yn unol â

i) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2004;
ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

3. a) Yn ystyried adroddiad Y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y Rheoliadau drafft **Rheoliadau’r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
iii) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2004.

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliadau (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Lesddaliadau) (Diwygio) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliadau (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Lesddaliadau) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;

ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
iii) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2004.

5. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) (Diwygio) (Cymru) 2004**

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn un unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004.

6. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
iii) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2004.

7. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

8. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004, ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Cwmnïau RTM (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cwmnïau RTM (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
iii) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2004.

9. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2004 ar y Gorchymyn drafft, **Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2002** a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2002 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004.

10. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004, ar y gorchymyn drafft, **Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004.

11. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y gorchymyn drafft, **Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004.

12. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004** ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2004;
iii) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**Dadl ar 3ydd Adroddiad Cydlyniant y CE – *TYNNWYD YN OL***
*NDM1849 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Trydydd Adroddiad Y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol a gyhoeddwyd ar 18 Chwefror 2004;

2. Yn cydnabod yr Adroddiad fel carreg filltir bwysig yn natblygiad rhaglen 2007-2013 yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cydlyniant economaidd a chymdeithasol; ac

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i geisio manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru ac ar ei fanteision.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu 'Yn croesawu' ac yn ei le rhoi 'Yn cymeradwyo'.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ail rifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
'Yn nodi bod Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE yn rhoi gwarant o gyllid am saith mlynedd, ac mai dyna sy'n dod â'r budd mwyaf i'r Gorllewin a'r Cymoedd.'

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu pwynt 3 a rhoi'r canlynol yn ei le:
'Yn pryderu bod cynigion llywodraeth y DU i gyfyngu ar faint cyllidebau strwythurol y DU yn golygu y bydd Cymru'n colli cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ystod y cyfnod rhwng 2007 a 2013.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 3 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:
'Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i fanteisio i'r eithaf ar raglenni'r cronfeydd strwythurol er budd Cymru.'

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
'ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i gefnogi'r cynigion sydd yn yr adroddiad, gan mai dyna sy'n cynnig y fargen orau i Gymru.'

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn nodi bod safbwynt Llywodraeth y DU ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol yn niweidiol i fuddiannau Cymru.'

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i bwyso ar lywodraeth y DU er mwyn sicrhau nad yw'n mynd ar drywydd toriadau yng nghyfraniad yr UE a fyddai'n andwyol i Gymru.'

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn credu bod y bwlch o ran yr economi ac o ran cyfoeth rhwng gwledydd a rhanbarthau'r DU wedi lledu yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf, a bod hynny'n tanlinellu perfformiad llywodraethau olynol y DU o ran datblygu economïau rhanbarthol, ac yn pryderu y byddai cynigion presennol llywodraeth y DU i dynnu allan o'r rhaglenni strwythurol Ewropeaidd yn lledu'r bwlch ymhellach.'

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn credu bod ar brosiectau angen sicrwydd yn y tymor hir o ran cyllid os ydynt yn mynd i lwyddo i gryfhau datblygiad economaidd yng Nghymru, ac yn nodi fod gwarantau ariannol yr Undeb Ewropeaidd yn para'n hwy na'r rhai a roddwyd gan lywodraethau'r DU, ac yn fwy sicr na hwy.'

*Bydd y cyswllt isod yn mynd â chi i Drydydd Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol:*
http://europa.eu.int/comm/regional_policy/sources/docoffic/official/reports/cohesion3/cohesion3_en.htm

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.27pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 10 Mawrth 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 08 Mawrth 2004**

☐ Cyfrifon Cryno GIG Cymru 2002-03 - LD2758

**Dogfennau a Osodwyd ar 05 Mawrth 2004**

☐ "Cyllid Gig Cymru 2003" Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio – LD2752

- ☐ Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004 – Arfarniad Rheoliadol - LD2753
- ☐ Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2754
- ☐ Adroddiad gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Tir Diffaith) 2004 a drafodwyd gan y pwyllgor ar 28 Ionawr 2004 - LD2755
- ☐ National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs Etc) (Wales) Regulations 2004 - LD2756 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- ☐ The National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004 - LD2757 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

**Dogfennau a Osodwyd ar 04 Mawrth 2004**

- ☐ Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004 - LD2745
- ☐ Gorchymyn Sbwriel a Baeddu gan Gwn (Cosb Benodedig) (Cymru) 2004 - LD2746
- ☐ Gorchymyn Sbwriel a Baeddu gan Gwn (Cosb Benodedig) (Cymru) 2004 – Arfarniad Rheoliadol - LD2747
- ☐ Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru)(Diwygio) 2004 - LD2748
- ☐ Rheoliadau Adysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004 – Arfarniad Rheoliadol - LD2749
- ☐ Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD2750
- ☐ Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2004 – Arfarniad Rheoliadol - LD2751

**Dogfennau a Osodwyd ar 03 Mawrth 2004**

- ☐ Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2002-03 - LD2742
- ☐ Diwygio'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol - LD2743
- ☐ Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2004 ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd - LD2744